

CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS

CWM AFAN
AFAN VALLEY

# Strategaeth Iaith Gymraeg
# Wildfox Welsh Language Strategy

ANTUR BYD NATUR
NATURE'S ADVENTURE

WWW.WILDFOXRESORTS.COM

## Contents


1. Introduction to Wildfox Resorts
1. Cyflwyniad i Gyrchfannau Wildfox
2. Policy Context
2. Cyd-destun Polisi
3. Local context
3. Cyd-destun Lleol
4. Planning condition 53 requirements
4. Gofynion Amod Cynllunio 53
5. Operational framework for Afan Valley
5. Fframwaith Gweithredol ar gyfer Cwm Afan
6. Training and Development
6. Hyfforddi a Datblygu
7. Conclusion
7. Casgliad

# 1. Introduction to Wildfox Resorts

The Wildfox Resorts Group was created by people passionate about adventure. This innovative and market leading concept seeks to provide exhilarating, relaxing and social holidays that create memorable experiences. Wildfox Resorts Afan Valley will be the first of three Resorts, making Wales the home for a new and distinctively recognisable tourism brand.

Our vision is to be the number one resort business for adventure and wellbeing, emerging as a world-renowned brand.

**Our values**

People – we will create a *#WildCommunity* that brings together adventurers, thrill seekers, the experienced, and the curious. We're building digital as well as physical communities; curating an inclusive offering that welcomes all. Whether as a guest or as a team member - when you're at a Wildfox resort, you're part of the pack. Wildfox works with and celebrates people and the land. Our 'local-first' approach to sourcing materials, ingredients and talent supports and gives back to the local community.

Planet – we will deliver a *#WildFuture*, offering experiences that leave a big impression and a light footprint on the planet. From nurturing local ecosystems and communities to reducing our environmental impact, we're striving to be at the forefront of a new wave of adventure and lifestyle resorts that puts planet front and centre. We aspire to integrate the latest technology to ensure our sites are sustainable; we're seeking to develop innovative partnerships throughout the supply chain in order to deliver this.

Pleasure – we don't do things by halves, and customers will have a *#WildLuxe* holiday. Quality is the golden thread that defines our approach to design, customer service, F&B and products and services. It distinguishes us from our competitors and sits hand in hand with our passion for detail. Setting the bar with exemplary customer service, we'll be there from dusk till dawn in style. Our team, accommodation and activities are designed to craft a level of experience that looks, feels and tastes like quality.

**Environmental, Social and Governance**

Wildfox Resorts is mindful of the social, economic and ecological impact its resorts will have on the environment and the people living there. We are dedicated to partnering with these communities and helping shape their future – positively and sustainably.

Wildfox Resorts has created an Environmental, Social and Governance (ESG) policy to set out the corporate commitments, and guide the business and its activities as whole. The ESG policy is particularly important with respect to guiding the development and implementation strategy, and directing action through our wider team and consultants, and to the community.

The ESG policy directly references the Wildfox Welsh Language Strategy as an integral part of our social value commitment.

As a large development project that has local, regional and national significance, Wildfox Resorts Afan Valley will have a transparent approach to ESG that will inform delivery, with regular reporting to communicate progress.

Wildfox Resort has an overarching mission, as set out in the ESG Policy, to create decent work and inclusive economic growth in conjunction with climate action, whilst contributing to the broader suite of UN Sustainable Development Goals.

The approach at Wildfox Resorts is to nurture low carbon innovation, processes and systems within the development to enable future occupants and communities to share our aspirations. We will do this by maximising the social, economic and environmental benefits of the transition to a zero carbon economy. We are on a journey to make this happen and quickly. Our mission will continue to drive positive environmental and social outcomes.

## 1. Cyflwyniad i Gyrchfannau Wildfox

Crëwyd Grŵp Cyrchfannau Wildfox gan bobl sy'n ysol am antur. Nod y cysyniad arloesol hwn sy'n arwain y farchnad yw darparu gwyliau cyffrous, ymlaciol a chymdeithasol sy'n creu profiadau cofiadwy. Cyrchfannau Wildfox Cwm Afan fydd y cyntaf o dri Chyrchfan, gan beri mai Cymru fydd cartref brand twristiaeth newydd, unigryw, hawdd ei adnabod.

Ein gweledigaeth yw bod yn fusnes cyrchfannau rhif un ar gyfer antur a llesiant, gan ddod i'r amlwg fel brand a adwaenir ledled y byd.

**Ein Gwerthoedd**

Pobl – byddwn ni'n creu #CymunedWyllt sy'n dwyn ynghyd anturwyr, ceiswyr cyffro, y profiadol a'r chwilfrydig. Rydyn ni'n adeiladu cymunedau digidol yn ogystal â chorfforol; yn curadu cynnig cynhwysol sy'n croesawu pawb. P'un ai a ydych chi'n westai neu'n aelod o'r tîm – pan fyddwch chi

mewn cyrchfan Wildfox, rydych chi'n un o'r llwyth. Mae Wildfox yn gweithio gyda phobl a'r tir ac yn eu dathlu. Mae ein dull 'lleol-yn-gyntaf' o ffynonellu deunyddiau, cynhwysion a doniau'n cefnogi ac yn ad-dalu'r gymuned leol.

Planed – byddwn ni'n darparu #DyfodolGwyllt, gan gynnig profiadau sy'n gadael argraff fawr ac ôl troed bach ar y blaned. O feithrin ecosystemau a chymunedau lleol i leihau ein heffaith amgylcheddol, rydyn ni'n ceisio bod ar flaen y gad mewn ton newydd o gyrchfannau antur a ffordd o fyw sy'n rhoi'r blaned yn y canol ac ar y blaen. Ein nod yw integreiddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn sicrhau bod ein safleoedd yn gynaliadwy; rydyn ni'n ceisio datblygu partneriaethau arloesol drwy gydol y gadwyn gyflenwi er mwyn darparu hyn.

Pleser – dydyn ni ddim yn gwneud pethau ar eu hanner, a bydd cwsmeriaid yn cael gwyliau #MoethusGwyllt. Ansawdd da yw'r llinyn aur sy'n diffinio ein hagwedd at ddylunio, gwasanaethau i gwsmeriaid, F&B a chynhyrchion a gwasanaethau. Mae'n ein gosod ni ar wahân i'n cystadleuwyr ac yn sefyll law yn llaw â'n harchwaeth am fanylion. Wrth osod y bar o ran gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, byddwn ni yno o fore gwyn tan nos. Cynlluniwyd ein tîm, ein llety a'n gweithgareddau i gyflwyno lefel o brofiad sy'n edrych, yn teimlo ac yn blasu fel rhywbeth o ansawdd.

### Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Mae Cyrchfannau Wildfox yn ystyriol o'r effaith gymdeithasol, economaidd ac ecolegol y bydd ei gyrchfannau'n eu cael ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw yno. Rydyn ni wedi ymrwymo i bartneru gyda'r cymunedau hyn a helpu i roi ffurf ar eu dyfodol – mewn modd cadarnhaol a chynaliadwy.

Mae Cyrchfannau Wildfox wedi creu polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) i amlinellu'i ymrwymiadau corfforaethol ac i lywio'r busnes a'i weithgareddau drwyddi draw. Mae'r polisi ESG yn arbennig o bwysig o ran llywio datblygu a gweithredu strategaeth, ac o ran cyfarwyddo gweithredu drwy ein tîm ehangach a'n hymgynghorwyr, a'r gymuned.

Mae'r polisi ESG yn cyfeirio'n uniongyrchol at Strategaeth Iaith Gymraeg Wildfox fel rhan ganolog o'n hymrwymiad i werth cymdeithasol.

Fel prosiect datblygu mawr ag iddo arwyddocâd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, bydd gan Gyrchfannau Wildfox Cwm Afan agwedd dryloyw at yr ESG a fydd yn addysgu pob darpariaeth, gydag adrodd yn ôl yn rheolaidd i gyfathrebu am gynnydd.

Mae gan Gyrchfan Wildfox genhadaeth drosfwâol, fel yr amlinellir yn y Polisi ESG, i greu gwaith dechau a thwf economaidd cynhwysol ar y cyd â gweithredu dros hinsawdd, ac ar yr un pryd gyfrannu at y casgliad ehangach o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Y dull o weithredi yng Nghyrchfannau Wildfox fydd meithrin arloesi, prosesau a systemau carbon isel o fewn y datblygiad er mwyn galluogi i breswylwyr a chymunedau'r dyfodol allu rhannu ein huchelgais. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy wneud yn fawr o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol symud i economi carbon sero. Rydyn ni ar daith i beri y gall hyn ddigwydd, a hynny ar fyrder. Ein cenhadaeth fydd parhau i yrru am ddeilliannau amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol.

## 2. **Policy context**

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 established a legal framework to ensure public bodies complied with certain standards relating to the Welsh Language.

The measure:

- Gave the Welsh Language official status in Wales meaning that Welsh should be treated no less favourably than the English language;
- Established the role of the Welsh Language Commissioner who has responsibility for promoting the Welsh language and improving the opportunities people have to use it;
- Created a procedure for introducing duties in the form of language standards that explain how organisations are expected to use the Welsh language and create rights for Welsh speakers;
- Made provision regarding promoting and facilitating the use of the Welsh language and increasing its use in everyday life;
- Made provision regarding investigating an interference with the freedom to use the Welsh language.

Wildfox Resorts Afan Valley falls within the boundary of Neath Port Talbot County Borough Council. As part of the Welsh Language Standards (No1) Regulations 2015, the council's Welsh language promotional strategy can be found here - https://www.npt.gov.uk/media/9917/neath-port-talbot-welsh-language-promotion-strategy.pdf?v=20181018094135.

This strategy sets out a target to increase the number of Welsh speakers in the area and the approach for reaching the target. As a large developer, Wildfox Resorts acknowledges the contribution and impact that we can make in supporting this strategy.

As Neath Port Talbot County Borough Council's strategy operates on a five-year process, Wildfox Resorts will also commit to a review in five-years. At that point, in 2028, Wildfox Resort Afan Valley will be open to the public and fully operational, therefore we will use the review to evaluate and consider how to best integrate and promote the Welsh Language through the resort and embed any necessary changes.

In addition to these requirements, there are other legislation and policies that guide our work:

- Cymraeg 2050 Strategy: Welsh Ministers' strategy for the promotion and facilitation of the use of the Welsh language. This sets out the Welsh Government's long-term approach to achieving the target of a million Welsh speakers by 2050. The strategy supersedes *A living language: a language for living – Welsh Language Strategy 2012-17*, and its associated policy statement, *A living language: a language for living – Moving forward*.
- Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015: requires public bodies in Wales to think about the long-term impact of their decisions, to work better with people, communities and each other, and to prevent persistent problems such as poverty, health inequalities and climate change. One of the seven Wellbeing goals is a 'Wales of vibrant culture and thriving Welsh language - a society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh language, and which encourages people to participate in the arts, and sports and recreation'.
- The Welsh in Education Strategic Plan: improves planning and development of Welsh-medium education provision in local authorities and sets out how it will seek to improve standards in Welsh-medium provision and the teaching of Welsh.
- The Mwy Na Geiriau/ More than Words Strategy: aims to promote the 'active offer' of Welsh language services in health, social services and social care.

## 2. **Cyd-destun polisi**

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â rhai safonau penodol sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg.

Roedd y mesur yn:

- Rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, gan olygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sefydlu rôl Comisiynydd yr Iaith Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio;
- Creu gweithdrefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n esbonio sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg a chreu hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg;
- Gwneud darpariaeth o ran hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'i defnydd mewn bywyd beunyddiol;
- Gwneud darpariaeth o ran archwilio ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Cyrchfan Wildfox Cwm Afan yn dod o fewn ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Fel rhan o Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif1) 2015, gellir dod o hyd i strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg yma –https://www.npt.gov.uk/media/9918/strategaeth-hybu-r-gymraeg-castell-nedd-port-talbot.pdf?v=20181018094155

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu targed i gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, a'r dull o fynd i'r afael â chyrraedd y nod hwnnw. Fel datblygwr mawr, mae Cyrchfannau Wildfox yn cydnabod y cyfraniad a'r effaith y gallwn ni ei wneud i gefnogi'r strategaeth hon.
Am fod strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu ar broses pum mlynedd, bydd Cyrchfannau Wildfox hefyd yn ymrwymo i gynnal adolygiad ymhen pum mlynedd. Bryd hynny, yn 2027, bydd Cyrchfan Wildfox Cwm Afan ar agor i'r cyhoedd ac yn llwyr weithredol, felly byddwn ni'n defnyddio'r adolygiad hwnnw i werthuso ac ystyried y ffordd orau i ymgorffori a hybu'r Gymraeg drwy'r gyrchfan, a gwreiddio unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Yn ogystal â'r gofynion hyn, mae deddfwriaeth a pholisïau eraill sy'n llywio ein gwaith:

- Strategaeth Cymraeg 2050: Strategaeth Gweinidog y Gymraeg i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn amlinellu dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn goresgyn Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017 (iaith fyw: iaith byw), a'i ddatganiad polisi cysylltiedig Iaith Fyw: Iaith byw – Bwrw mlaen.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: mae'n mynnu fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, ei weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Un o'r saith nod llesiant yw 'Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu ¬– cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'.
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: mae'n gwella cynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol ac yn amlinellu sut y bydd yn ceisio gwella safonau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysgu Cymraeg.
- Strategaeth Mwy na Geiriau: ei nod yw hybu 'cynnig gweithredol' gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol


# 3. Local context

Neath Port Talbot County Borough Council (NPT Council) has a longstanding commitment to supporting and promoting the Welsh language through the commitments made in its Welsh Language Schemes since 1996.

Since the introduction of the Welsh Language Standards (No1) Regulations and the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015, the prominence of Welsh language, heritage and culture has increased. Following this, NPT Council submitted a refreshed Welsh Language Promotion Strategy in 2018. It will be due for revision in 2023.

However, according to the 2021 Census, the percentage of Welsh speakers in the Neath Port Talbot borough fell from 15.3% in 2011 to 13.5% in 2021. That is a total decrease of 1.8%. In 2021, there were just over 2,000 fewer Welsh-speaking Neath Port Talbot residents (over the age of three years) compared with 2011. The number of people who did not speak Welsh increased by 5,100.

*Graph showing percentage of people aged three years and over by ability to speak Welsh in NPT Council:*




Source: Office for National Statistics – 2011 Census and Census 2021

According to the Annual Population Survey, the figure is slightly higher, at 21.7%, but this still places Neath Port Talbot 15th out of Wales's 22 local authority areas for number of Welsh speakers. In Wales as a whole, an estimated 538,000 usual residents aged three years and over (17.8%) reported being able to speak Welsh – a notable decline since 2011 (562,000, 19.0%).

The picture presented by this data highlights that there is an opportunity and a need to increase the awareness of the Welsh language in the region and further promote it to new audiences,

means and markets. As a new, exciting and distinct tourism asset, Wildfox Resorts Afan Valley hopes to utilise its platform to engage with a variety of stakeholders and invest resources into the local area that fulfil and enhance existing commitments to promote  the Welsh language.

The team will seek to engage with and take guidance from a number of key stakeholders throughout the next five-years to inform this work, including:


- NPT Council
- NPT Council Community Safety Groups, including blue light services
- Welsh Language Commissioner
- Neath Port Talbot Group of Colleges
- Local language initiative Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
- Cymraeg i Blant
- Mudiad Meithrin
- The Urdd (Welsh language youth movement);
- Local schools

## 3. **Cyd-destun lleol**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Cyngor CnPT) ymrwymiad hirdymor i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg drwy'r ymrwymiadau a wnaeth yn ei Gynlluniau Iaith Gymraeg ers 1996.

Ers cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cynyddodd amlygrwydd yr iaith Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant. O ganlyniad i hyn, cyflwynodd Cyngor CnPT Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar ei newydd wedd yn 2018. Bydd yn barod ar gyfer ei adolygu yn 2023.
Serch hynny, yn ôl Cyfrifiad 2021, syrthiodd canran y siaradwyr Cymraeg ym mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot o 15.3% yn 2011 i 13.5% yn 2021. Dyna ostyngiad o 1.8% i gyd. Yn 2021, roedd ychydig dros 2,000 yn llai o breswylwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghastell-nedd Port Talbot (dros dair blwydd oed) o'i gymharu â 2011. Cynyddodd y nifer o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg gan 5,100.

*Graff yn dangos canran y bobl dair oed a hŷn yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg yn ardal Cyngor CnPT:*




**Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Genedlaethol – Cyfrifiad 2011 a**

Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Flynyddol, mae'r ffigwr ychydig yn uwch, ar 21.7%, ond mae'r ffigwr hwn yn dal i osod Castell-nedd Port Talbot yn bymthegfed o blith 22 ardal awdurdod lleol Cymru o ran niferoedd siaradwyr Cymraeg. Yng Nghymru gyfan, adroddodd amcangyfrif o 538,000 o breswylwyr arferol tair oed a hŷn (17.8%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg – dirywiad nodedig ers 2011 (562,000, 19.0%).

Mae'r darlun a gyflwynir gan y data hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfle ac angen i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y rhanbarth, a'i hybu ymhellach gerbron cynulleidfaoedd, moddau a marchnadoedd newydd. Fel ased dwristiaeth newydd, cyffrous a nodweddiadol, gobaith Cyrchfannau Wildfox Cwm Afan yw defnyddio'r llwyfan sydd ganddo i ymgysylltu â sawl rhanddeiliad a buddsoddi adnoddau i mewn i'r ardal leol sy'n cyflawni ac yn gwella ymrwymiadau presennol i hybu'r Gymraeg..

Bydd y tîm yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â sawl rhanddeiliad allweddol a derbyn arweiniad ganddynt dros y pum mlynedd nesaf er mwyn addysgu'r gwaith hwn, gan gynnwys:

- Cyngor CnPT
- Grwpiau Diogelwch Cymunedol Cyngor CnPT, gan gynnwys gwasanaethau golau glas
- Comisiynydd y Gymraeg
- Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
- Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
- Cymraeg i Blant
- Mudiad Meithrin
- Urdd Gobaith Cymru
- Ysgolion lleol

# 4. Planning condition 53 requirements

Planning condition 53 of outline planning permission for the Afan Valley resort requires the preparation and implementation of a Welsh Language Strategy to be agreed with the local planning authority. This will set out the mitigation measures to be undertaken to protect, promote and enhance the Welsh language during the operation of the resort.

**In accordance with condition 53, Wildfox Resorts Afan Valley has the following objectives**:

- Set a new standard and best practice for new businesses in Wales to protect, promote and enhance the Welsh Language.
- Integrate a bilingual strategy from the outset of project development, including name and brand integration at the Afan Valley resort.
- Provide bilingual communication to the community, workforce and guests across multiple access channels.
- Prioritise Welsh language to build brand value and differentiation in the adventure market in Wales, linking to other Welsh adventure hot spots to create world a class destination.
- Reinforce and amplify a sense of place: differentiating 'fact' from fiction in planning and technical documents and celebrating myths, magic, culture and heritage.
- Achieve The Cynnig Cymraeg recognition at Afan Valley Resort opening.
- Implement best practice of the Welsh Language Strategy throughout the Afan Valley resort operation.

Planning permission has been secured and the team is now working towards implementation. To ensure Wildfox Resorts represents the national and local strategy as well as possible, the team has consulted the Welsh Language Commissioner, audited the existing strategy and received guidance on the long-term operational approach. The team has also been working closely with an independent translator in support of delivering the bilingual strategy.

The below sets out what Wildfox Resorts is currently doing in order to champion the Welsh language through the following themes:


## Bilingual design

The Welsh language will be entrenched as part of Wildfox Resort's bilingual design approach for the Afan Valley site. The design team has created a unique brand that pays homage to the local land and promotes the Welsh Language. The Afan Valley bilingual logo is also prominent throughout the typography, colour palette and architecture of the resort.

CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS
CWM AFAN
AFAN VALLEY


## Bilingual website


Wildfox Resorts has a fully bilingual website, which can be accessed through the translation icon, as shown in the image below. Viewers who choose to read the website in Welsh can access all materials in Welsh, including the website copy, press releases, communications materials (including newsletters and updates) and associated reports.



### Social media

Wildfox Resorts has a bilingual social media strategy across all accounts and platforms. On LinkedIn, both English and Welsh copy can be found in one post. On Twitter, due to character count constraints, English and Welsh copy are shared in two separate posts as a thread.




### Placemaking

Wildfox Resorts and the team architects, Wales-based Powell Dobson, are committed to utilising the local heritage of the site throughout the resort design principles. The delivery team is exploring a variety of options for how best to integrate this throughout the site including Welsh themed naming conventions, resort signage, interpretation boards, digital and educational information, interior design e.g., unique Welsh fabrics curated by a local supplier.

In addition, Wildfox Resorts will enhance the historic Public Rights of Way that sit in and around the site boundary to improve accessibility and usage for local residents and visitors. The team will explore how to integrate and celebrate landscape art and heritage to enhance the locality for both community and visitors.

Active travel is also a critical element of the Resort and will aid the delivery of the wider placemaking strategy that promotes Welsh heritage and trails.

Wildfox is supportive of renewable energy investment and the host role the area can offer to facilitate wider decarbonisation and advancement towards a net zero carbon future.

The local context regarding placemaking will also be reflected. With recent investment secured from the UK Government Levelling Up Fund to establish the Vale of Neath as a major heritage and natural environment led visitor destination, Wildfox Resorts aims to align with the council's commitment to heritage and the great outdoors through the proposed tourism asset and campaigns, such as the 'dramatic heart' campaign.

Alongside this, further investment acquired through the Shared Prosperity Fund will also include a placemaking marketing campaign, with the aim of positioning Neath Port Talbot as an alternative year-round visitor destination, and as a great place to live, work and visit. Wildfox Resorts Afan Valley will be a complementary case study for this campaign and the team will collaborate with partners on how best to maximise the promotion of the resort's benefits to reflect this.

Finally, NPT Council recently launched The Community Heritage Fund, as part of the wider Heritage Neath Port Talbot project funded by the National Lottery Heritage Fund. Wildfox Resorts will proactively support any community groups that is interested in voluntary work associated with the site or surrounding area.

**People**

Wildfox Resorts is dedicated to supporting the local community as much as possible, whether through training and development, recruitment or generating social value and ensuring a positive legacy for people to enjoy in the future.

As part of our ongoing work, Wildfox Resorts has already developed relationships with members of the community and has invested time, resources and financial support into the surrounding area.



Wildfox Resorts has partnered with The Bumbles of Honeywood, as part of 2B Enterprising, to fund educational resources for four local primary schools in the Afan Valley and an additional local Welsh-medium school in Neath Port Talbot, to introduce and teach primary school children about resilience and entrepreneurial spirit over a three-year programme.

The team will be visiting the schools throughout 2023 and onwards to deliver talks on the Afan Valley resort and inspire the next generation of employees and adventure-enthusiasts. Part of this work will be about celebrating the locality and sharing information on progress including specific site issues, such as ecology and the environment. The staff running these sessions in schools are bilingual, and utilise both English and Welsh language.

Wildfox Resorts will be actively supporting further opportunities to enhance resources and run Wildfox themed competitions in the local area.

In addition, Wildfox Resorts has met with Neath Port Talbot Group of Colleges to discuss establishing a Wildfox Academy that will create pathways to work, enabling local college students to train and secure qualifications that are directly aligned with the resort operation in a diverse range of roles in sales and marketing, digital services, leisure management, adventure activities, health and wellbeing, hospitality, transport, logistics, landscaping and security. The goal of the Wildfox Academy will be to create academic pathways from schools to training and apprenticeships that will ensure the retention of skilled students in the region and provide long term, all-year-round employment.


The team is mindful of the local socio-economic picture, whereby statistics show a need for improved health and wellbeing and reduced anti-social behaviour, specifically in youth groups. Wildfox Resorts aspire to a proactive, rather than reactive, long-term approach to overcoming these existing challenges through collaboration with stakeholders and the support of NPT Council and their wider resources and network.

**Business Charter**

In support of Wildfox Resorts commitment to local employment, there is a dedicated supplier registration form via the website which enables Welsh businesses the opportunity to promote their produce, services or skills into the Afan Valley resort.

The Wildfox Resorts communication team log and respond to each individual business request and ensures, at an appropriate time, that local requests are fully considered and assessed by the wider delivery team.

Local businesses can also opt in to communicate via us in the Welsh language.




**Sustainability in procurement and our supply chain**

In alignment with the ESG policy, Wildfox Resorts is committed to identifying, utilising and promoting the Welsh Language and wider Welsh sustainability agenda. We will build this into procurement processes and criteria which helps us evaluate supplier commitment to sustainability and the creation of social value.

Wildfox Resorts will look to support local Welsh businesses throughout the supply chain. For example by offering Welsh produce and brands with Welsh packaging in shops on site, using local materials and furnishings through the building interiors and celebrating the Welsh language through bilingual front of house staff who can offer bilingual customer services.

We will also encourage supply chain innovation to help accelerate and progress towards a net zero carbon ambition and push sustainability initiatives and standards in tourism. Any contractors onboarded will be made aware of Wildfox Resorts' commitment to the Welsh language.

Throughout the planning process, Wildfox Resorts Afan Valley has a strict and detailed ecological management process, overseen by a dedicated Ecology Clerk of Works, who ensures Wildfox Resorts is protecting existing species, restoring the landscape and increasing biodiversity, creating a positive environmental legacy for the Valley.

# 4. Gofynion Amod Cynllunio 53

Mae amod cynllunio 53 o'r caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer cyrchfan Cwm Afan yn gofyn am baratoi a gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg i'w chytuno â'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd hyn yn amlinellu'r mesurau lliniaru i'w gweithredu i warchod, hybu a gwella'r Gymraeg yn ystod cyfnod gweithredu'r gyrchfan.

**Yn unol ag amod 53, mae gan Gyrchfannau Wildfox Cwm Afan y nodau canlynol:**

- Gosod safon newydd ac arfer orau ar gyfer busnesau newydd yng Nghymru i warchod, hybu a gwella'r Gymraeg.
- Integreiddio strategaeth ddwyieithog o ddechrau cyntaf datblygu'r prosiect, gan gynnwys enw ac integreiddio brand y gyrchfan yng Nghwm Afan.
- Darparu cyfathrebu dwyieithog i'r gymuned, y gweithlu a gwesteion ar draws sianelau mynediad lluosog.
- Blaenoriaethu'r Gymraeg i adeiladu gwerth brand a chreu gwahaniaeth yn y farchnad antur yng Nghymru, gan gysylltu â mannau antur poblogaidd eraill yng Nghymru i greu cyrchfan o safon fyd-eang.
- Atgyfnerthu a chryfhau ymdeimlad o le: gwahaniaethu rhwng 'ffaith' a ffuglen mewn dogfennau cynllunio a thechnegol, a dathlu mythau, hud a lledrith, diwylliant a threftadaeth.
- Cyflawni cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg adeg agor cyrchfan Cwm Afan.
- Gweithredu arfer orau'r Strategaeth Iaith Gymraeg ar draws gweithrediad cyrchfan Cwm Afan.

Sicrhawyd caniatâd cynllunio ac erbyn hyn mae'r tîm yn gweithio tuag at weithredu'r gyrchfan. Er mwyn sicrhau bod Cyrchfannau Wildfox yn cynrychioli'r strategaeth genedlaethol a lleol gystal â phosib, mae'r tîm wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, wedi archwilio'r strategaeth sy'n bodoli ac wedi derbyn arweiniad ar y dull hirdymor o weithredu. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyfieithydd annibynnol hefyd i gefnogi darparu'r strategaeth ddwyieithog.
Mae'r cynnwys isod yn amlinellu'r hyn mae Cyrchfannau Wildfox yn ei wneud ar hyn o bryd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r themâu canlynol:


**Dylunio dwyieithog**

Bydd y Gymraeg wedi'i gwreiddio fel rhan o agwedd ddylunio ddwyieithog Cyrchfannau Wildfox ar gyfer lleoliad Cwm Afan. Mae'r tîm dylunio wedi creu brand unigryw sy'n talu gwrogaeth i'r tir lleol ac sy'n hybu'r Gymraeg, Mae logo dwyieithog Cwm Afan yn amlwg hefyd ar draws teipograffeg, dewis lliwiau a phensaernïaeth y gyrchfan.

CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS
CWM AFAN
AFAN VALLEY


**Gwefan ddwyieithog**


Mae gan Gyrchfannau Wildfox wefan hollol ddwyieithog, y gellir cael mynediad iddi drwy'r eicon cyfieithu, fel y dangosir yn y llun isod. Gall defnyddwyr sy'n dewis darllen y wefan yn Gymraeg gael mynediad i'r holl ddeunydd yn Gymraeg, gan gynnwys copi'r wefan, datganiadau i'r wasg, deunydd cyfathrebu (gan gynnwys cylchlythyron a diweddariadau) ac adroddiadau cysylltiedig.



## Cyfryngau cymdeithasol

Mae gan Gyrchfannau Wildfox strategaeth cyfryngau cymdeithasol ddwyieithog ar draws pob cyfrif a llwyfan. Ar LinkedIn, gellir gweld neges yn Gymraeg a Saesneg ar yr un postiad. Ar Twitter, oherwydd cyfyngiadau ar nifer y nodau, rhennir y neges rhwng dau bostiad gwahanol ar ffurf llinyn.




## Creu lle

Mae Cyrchfannau Wildfox a'r tîm penseiri, Powell Dobson, a leolir yng Nghymru, wedi ymrwymo i ddefnyddio treftadaeth leol y safle drwy gydol egwyddorion dylunio'r gyrchfan. Mae'r tîm cyflawni'n archwilio sawl opsiwn o ran y ffyrdd gorau o gynnwys hyn drwy'r safle drwyddi draw, gan gynnwys mabwysiadu egwyddorion enwi ar themâu Cymraeg, arwyddion y gyrchfan, byrddau dehongli, gwybodaeth ddigidol ac addysgiadol, dylunio mewnol ac ati, deunyddiau meddal Cymreig unigryw a guradwyd gan gyflenwr lleol.

Yn ogystal, bydd Cyrchfannau Wildfox yn gwella'r Llwybrau Tramwy Cyhoeddus hanesyddol a leolir yn y safle ac o gwmpas ei ffiniau i wella hygyrchedd a defnydd gan breswylwyr lleol ac ymwelwyr. Bydd y tîm yn archwilio sut i gynnwys a dathlu celf dirweddol a threftadaeth i wella'r lleoliad ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae teithio llesol yn elfen hanfodol o'r Gyrchfan hefyd, a bydd yn cynorthwyo gyda darparu'r strategaeth creu lle ehangach sy'n hybu treftadaeth a llwybrau Cymreig.

Mae Wildfox yn gefnogol o fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a'r rhan sydd gan yr ardal i'w chwarae fel cynhaliwr i hwyluso datgarboneiddio ehangach a gyrru ymlaen at ddyfodol carbon sero net.

Bydd y cyd-destun lleol o ran creu lle'n cael ei adlewyrchu hefyd. Gyda sicrhau buddsoddiad diweddar o Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU i sefydlu Cwm Nedd fel cyrchfan o bwys dan arweiniad treftadaeth a'r amgylchedd naturiol, nod Cyrchfannau Wildfox yw cyd-fynd ag ymrwymiad y cyngor i dreftadaeth a'r awyr agored drwy gyfrwng yr ased dwristiaeth arfaethedig, ac ymgyrchoedd fel  ymgyrch 'calon ddramatig'.

Law yn llaw â hyn, bydd buddsoddiad pellach a gafwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd yn cynnwys ymgyrch farchnata creu lle, gyda'r nod o leoli Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, ac fel lle rhagorol i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef. Bydd Cyrchfannau Wildfox Cwm Afan yn astudiaeth achos cyflenwol ar gyfer yr ymgyrch hwn, a bydd y tîm yn cydweithio gyda phartneriaid ynghylch sut orau i wneud yn fawr o'r ymgyrch i hyrwyddo manteision y gyrchfan i adlewyrchu hyn.

I gloi, lansiodd Cyngor CnPT y Gronfa Dreftadaeth Gymunedol yn ddiweddar, fel rhan o brosiect ehangach Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd Cyrchfannau Wildfox yn cefnogi'n rhagweithiol unrhyw grwpiau cymunedol sy'n dangos diddordeb mewn gwaith gwirfoddol a gysylltir â'r safle neu'r ardal gyfagos.

**Pobl**



Mae Cyrchfannau Wildfox wedi ymrwymo i gefnogi'r gymuned leol gymaint â phosib, boed hynny drwy hyfforddi a datblygu, recriwtio, neu gynhyrchu gwerth cymdeithasol a sicrhau gwaddol cadarnhaol y gall pobl ei fwynhau i'r dyfodol.

Fel rhan o'n gwaith parhaus, mae Cyrchfannau Wildfox eisoes wedi datblygu perthynas ag aelodau o'r gymuned, ac mae wedi buddsoddi amser, adnoddau a chefnogaeth ariannol i mewn i'r ardal gyfagos.

Mae Cyrchfannau Wildfox wedi creu partneriaeth gyda'r Bumbles of Honeywood, fel rhan o 2B Enterprising, i ariannu adnoddau addysgol ar gyfer pedair ysgol gynradd leol yng Nghwm Afan ac ysgol cyfrwng Cymraeg leol ychwanegol yng Nghastell-nedd Port Talbot, er mwyn addysgu plant ysgolion cynradd a'u cyflwyno i'r cysyniad o wytnwch ac ysbryd mentergar dros oes rhaglen dair blynedd o hyd.

Bydd y tîm yn ymweld â'r ysgolion drwy gydol 2023 ac ymlaen, i roi sgyrsiau am gyrchfan Cwm Afan ac i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gyflogeion ac antur-garwyr.

Bydd rhan o'r gwaith hwn yn ymwneud â dathlu'r ardal leol a rhannu gwybodaeth am gynnydd, gan gynnwys materion penodol yn ymwneud â'r safle, fel ecoleg a'r amgylchedd. Mae'r staff sy'n cynnal y sesiynau mewn ysgolion yn ddwyieithog, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.
Bydd Cyrchfannau Wildfox yn cefnogi mwy o gyfleoedd i wella adnoddau, a byddwn yn cynnal cystadlaethau ar thema Wildfox yn yr ardal leol.

Yn ogystal, mae Cyrchfannau Wildfox wedi cwrdd â Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot i drafod sefydlu Academi Wildfox a fydd yn creu llwybrau at waith, gan alluogi myfyrwyr coleg lleol i hyfforddi ac ennill cymwysterau sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â gweithredu'r gyrchfan mewn ystod eang o swyddi – mewn gwerthu a marchnata, gwasanaethau digidol, rheoli hamdden, gweithgareddau antur, iechyd a llesiant, lletygarwch, trafnidiaeth, logisteg, tirlunio a diogelwch. Nod Academi Wildfox fydd creu llwybrau academig o ysgolion drwodd i hyfforddiant a phrentisiaethau, a fydd yn sicrhau y gellir cadw myfyrwyr sgilgar yn y rhanbarth a darparu cyflogaeth hirdymor drwy gydol y flwyddyn ar eu cyfer.


Mae'r tîm yn ystyriol o'r darlun cymdeithasol-economaidd lleol, ble dengys ystadegau fod angen gwelliant mewn iechyd a llesiant, a lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn benodol ymysg grwpiau ieuenctid. Uchelgais Cyrchfannau Wildfox yw gweithredu mewn dull rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol, hirdymor er mwyn goresgyn yr heriau presennol hyn, drwy gydweithio â rhanddeiliaid a gyda chefnogaeth Cyngor CnPT a'u hadnoddau a'u rhwydwaith ehangach.

**Siarter Fusnes**

I gefnogi ymrwymiad Cyrchfannau Wildfox i gyflogaeth leol, mae ffurflen gofrestru benodol ar gyfer cyflenwyr ar y wefan sy'n galluogi i fusnesau Cymreig gael cyfle i hybu'u cynnyrch, eu gwasanaethau neu'u sgiliau yng nghyrchfan Cwm Afan.

Bydd tîm cyfathrebu Cyrchfannau Wildfox yn cofnodi ac ymateb i bob cais busnes unigol, gan sicrhau y bydd ceisiadau lleol yn cael ystyriaeth lawn, ar adeg addas, ac yn cael eu hasesu gan y tîm darparu ehangach.

Gall busnesau lleol ddewis cyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.


Ymholiad busnes lleol

Enw

E-bost busnes

Cod Post

Terfyn o 350 o nodau

Dewis Sector *

- [ ] Hoffwn danysgrifio i'r cylchlythyr.
- [ ] Mae'n well gen i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- [ ] rwy gyflwyno'r ffurflen rydych chi'n cytuno i ymrwymo i'n Telerau ac Amodau. Gweld telerau defnyddio.

Cofrestru diddordeb

**Cynaliadwyedd mewn caffael a'n cadwyn gyflenwi**

Yn unol â'r polisi ESG, mae Cyrchfannau Wildfox wedi ymrwymo i amlygu, defnyddio a hybu'r Gymraeg a'r agenda gynaliadwyedd Gymreig ehangach. Byddwn ni'n adeiladu hyn i mewn i'n prosesau a'n meini prawf caffael sy'n ein helpu i werthuso ymrwymiad cyflenwyr i gynaliadwyedd a'r egwyddor o greu gwerth cymdeithasol.

Bydd Cyrchfannau Wildfox yn ceisio cefnogi busnesau lleol Cymreig drwy gydol y gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, drwy gynnig cynnyrch a brandiau Cymreig gyda phecynnu Cymraeg mewn siopau ar ein safle, defnyddio deunyddiau a chelfi lleol y tu mewn i'r adeiladau, a dathlu'r iaith Gymraeg drwy ddefnyddio staff blaen tŷ dwyieithog a all gynnig gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid.

Byddwn ni hefyd yn annog arloesi yn y gadwyn gyflenwi er mwyn helpu i gyflymu a symud at uchelgais carbon sero a gwthio mentrau cynaliadwyedd a safonau mewn twristiaeth. Bydd unrhyw gontractwyr sy'n rhan o weithio gyda ni yn cael eu hysbysu am ymrwymiad Cyrchfannau Wildfox i'r iaith Gymraeg.

Drwy gydol y broses gynllunio, mae Cyrchfannau Wildfox Cwm Afan wedi gweithredu proses reoli ecolegol lem a manwl, a oruchwylir gan Glerc Gwaith Ecolegol penodedig, sy'n sicrhau fod Cyrchfannau Wildfox yn gwarchod rhywogaethau sydd yma'n barod, yn adfer y dirwedd ac yn cynyddu bioamrywiaeth, gan greu gwaddol amgylcheddol cadarnhaol ar gyfer y Dyffryn

# 5. Operational framework for Afan Valley

**When considering Wildfox Resorts' operational framework for the Afan Valley resort, the following processes and procedures will be put in place to fulfil the Welsh Language Strategy.**

**Writing to us**

- If you write to us via letter or e-mail you can do so in Welsh and we will reply in Welsh.
- If Wildfox Resorts writes to you for the first time or if we don't know which language is your preferred, we will write to you in both Welsh and English.
- When Wildfox Resorts writes to several people at the same time we will do so in both Welsh and English every time.
- Wildfox Resorts will not treat the Welsh language less favourably than English when we send letters or e-mails to the public for the first time.
- Wildfox Resorts will state clearly in our correspondence, advertisements and publications that we welcome contact in Welsh.

**Contacting by phone**

- In the short term, if you would like to engage with the team in Welsh via the phone, please leave a message and we will arrange for member of the team to respond to you in Welsh.
- When operational, Wildfox Resorts welcomes phone calls in Welsh and English.
- Each member of the Wildfox Resorts team who receive phone calls directly from the public will greet them in Welsh.

- Wildfox Resorts gives a language choice to individuals who call our main contact number and the choice will be logged via a database.
- If you choose the Welsh option on the main phone number, Wildfox Resorts will conduct the entire conversation with you in Welsh. Or, if you call the direct line number of a member of the Wildfox Resorts team who is not a Welsh-speaker, they will offer to transfer the call to a colleague who is a Welsh-speaker if possible.
- Messages on the Wildfox Resorts main phone number are in both Welsh and English and you can leave us a message in either language.

**Meetings and events**

- If Wildfox Resorts invites a member of the public to a meeting, the team will ask if they wish to conduct the conversation in Welsh and will arrange a translator if required.
- If Wildfox Resorts invites a group of the public to a meeting, we will ask those attending if they wish to conduct the conversation in Welsh and will arrange a translator if ten per cent or more tell us that they do.
- When Wildfox Resorts arranges or funds a meeting or public event, the team will promote and advertise it and send out invitations in both Welsh and English.
- If you attend a meeting or public event that Wildfox Resorts has arranged or funded, you are welcome to contribute in Welsh and we will provide translation equipment.
- Materials and information regarding any public meetings will be available in both languages before and during the meeting.
- At any events, members of the Wildfox Resorts team will wear a badge to mark if they speak Welsh, so they are easily identified.

**Publications and written material**

- All Wildfox Resorts documents, promotional material and advertisements that we produce will be available in Welsh and English and both languages will be given equal prominence.
- Wildfox Resorts will ensure that information and materials displayed publicly are in both Welsh and English.
- Wildfox Resorts will produce bilingual documents; however, if this is not possible due to the size of a document, a Welsh version will be available at the same time as the English version and we will note on the English copy that a Welsh version is available.

- Both languages will be given equal prominence on our corporate identity for the Wildfox Resorts Afan Valley site.

**Digital and on-line**

- Wildfox Resorts website is entirely bilingual and we will update Welsh pages at the same time as we update the English ones.
- Wildfox Resorts will make sure that it is possible to switch easily between the Welsh and English translations on every page on our website.
- Wildfox Resorts will have a specific section on the website which contains all the information about how we comply with the language standards – we will update this section regularly.
- Wildfox Resorts uses LinkedIn, Twitter and email to communicate with stakeholders and we will use both Welsh and English on all three channels.
- If you send us a message on social media, Wildfox Resorts will reply in the language of the original message.

**Tendering**

- When Wildfox Resorts issues a tender for services, we will ask the respondent to confirm whether they would like further communication in English or Welsh.
- Wildfox Resorts would prefer to receive tenders in English, but we will make necessary arrangements for those who show a preference to respond and be interviewed in Welsh if they wish.
- Wildfox Resorts will not treat any tender we have received in Welsh less favourably than tenders in English.

**Creating policies**

- When Wildfox Resorts reviews or develops policy we will consider any impact this policy may have on the Welsh language and opportunities to use the language.
- With every new policy, Wildfox Resorts will not treat the Welsh language less favourably than English and we will think of ways in which the policy could have a positive impact on people's opportunities to use the Welsh language.
- Similarly, when consulting or undertaking research to develop policies, Wildfox Resorts will consider and seek opinion about the impact of the policy on the Welsh language.

- As an employer, Wildfox Resorts commits to the principle that our staff can live their working lives through the medium of Welsh in line with the standards – from filling in an application form and being interviewed, to discussing matters in relation to their employment.
- When recruiting, Wildfox Resorts will consider the need for Welsh-language skills for every new post or vacancy, and when we advertise a post requiring language skills we will note this and advertise in Welsh.
- Interested applicants at Wildfox Resorts will be able to apply for a post with us through the medium of Welsh and we will communicate with you about your application in Welsh if requested.
- Wildfox Resorts will not treat job applications submitted in Welsh less favourably than English ones.
- Wildfox Resorts policies involving the working conditions of our staff which are listed within the standards will be available in Welsh if requested.
- Wildfox Resorts will encourage staff at our Afan Valley site to learn Welsh at work. .

**Monitoring and Reporting**

- Wildfox Resorts will be proactive in monitoring operational framework in alignment with the standards annually.
- Wildfox Resorts will deliver progress reports annually to identify any areas for improvement in compliance with the standards.
- To comply with the language standards, Wildfox Resorts will submit a report to the Welsh Language Commissioner as required. The report will explain how we have complied with all the standards, with evidence of how we fulfil the requirements. The report will also show if we have failed to fulfil any standard and if anyone has complained about our Welsh-language provision.
- Wildfox Resorts communication team will acknowledge complaints regarding the Welsh Language Strategy via letter, phone, e-mail and social media channels (LinkedIn and Twitter) and will subsequently monitor and provide feedback to any complaints.

## 5. Fframwaith gweithredol ar gyfer Cwm Afan

**Wrth ystyried fframwaith gweithredol Cyrchfannau Wildfox ar gyfer cyrchfan Cwm Afan, bydd y prosesau a'r gweithdrefnau canlynol yn cael eu sefydlu i gyflawni'r Strategaeth Iaith Gymraeg.**

**Ysgrifennu atom ni**

- Os byddwch chi'n ysgrifennu atom drwy lythyr neu e-bost, gallwch wneud hynny yn Gymraeg, a byddwn ni'n ateb yn Gymraeg.
- Os bydd Cyrchfannau Wildfox yn ysgrifennu atoch chi am y tro cyntaf, neu os nad ydyn ni'n gwybod pa iaith sydd orau gennych, byddwn ni'n ysgrifennu atoch yn Gymraeg a Saesneg.
- Pan fydd Cyrchfannau Wildfox yn ysgrifennu at sawl person ar yr un pryd, byddwn ni'n gwneud yn hyn Gymraeg a Saesneg gyda'i gilydd bob tro.
- Ni fydd Cyrchfannau Wildfox yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth i ni anfon llythyron neu negeseuon e-bost at y cyhoedd am y tro cyntaf.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn nodi'n glir yn ein cyfathrebiadau, ein hysbysebion a'n cyhoeddiadau ein bod ni'n croesawu pob cyswllt yn Gymraeg.

**Cysylltu dros y ffôn**

- Yn y tymor byr, os hoffech ymgysylltu â'r tîm yn Gymraeg dros y ffôn, a fyddech cystal â gadael neges, a byddwn ni'n trefnu aelod o'r tîm i ymateb i chi yn Gymraeg.
- Pan fydd y safle'n weithredol, bydd Cyrchfannau Wildfox yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd pob aelod o dîm Cyrchfannau Wildfox a fydd yn derbyn galwadau ffôn yn uniongyrchol gan y cyhoedd yn eu cyfarch yn Gymraeg.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn rhoi dewis o iaith i unigolion sy'n ffonio ein prif rif cyswllt a bydd y dewis yn cael ei gofnodi ar fas data.
- Os byddwch chi'n dewis yr opsiwn Cymraeg ar y prif rif ffôn, bydd Cyrchfannau Wildfox yn cynnal y sgwrs gyfan gyda chi yn Gymraeg. Neu, os byddwch chi'n galw llinell uniongyrchol aelod o'r tîm sydd ddim yn siarad Cymraeg, byddan nhw'n cynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siaradwr Cymraeg, os yw'n bosib.

- Mae negeseuon ar brif rif ffôn Cyrchfannau Wildfox i'w clywed yn Gymraeg a Saesneg, a gallwch adael neges i ni yn y naill iaith neu'r llall.

**Cyfarfodydd a digwyddiadau**

- Os bydd Cyrchfannau Wildfox yn gwahodd aelod o'r cyhoedd i gyfarfod, bydd y tîm yn gofyn a ydyn nhw'n dymuno cynnal y sgwrs yn Gymraeg, a threfnir cyfieithydd os oes angen.
- Os bydd Cyrchfannau Wildfox yn gwahodd grŵp o'r cyhoedd i gyfarfod, byddwn ni'n gofyn i'r rheiny sy'n mynychu a ydyn nhw'n dymuno cynnal y sgwrs yn Gymraeg, a threfnir cyfieithydd os oes deg y cant neu ragor yn dweud wrthym eu bod yn dymuno hynny.
- Pan fydd Cyrchfannau Wildfox yn trefnu neu'n ariannu cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus, bydd y tîm yn ei hybu a'i hysbysebu ac yn anfon gwahoddiadau yn Gymraeg a Saesneg.
- Os byddwch chi'n mynychu cyfarfod neu ddigwyddiad a drefnwyd neu a ariannwyd gan Gyrchfannau Wildfox, mae croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg a byddwn ni'n darparu offer cyfieithu.
- Bydd deunyddiau a gwybodaeth ynghylch unrhyw gyfarfod cyhoeddus ar gael yn y ddwy iaith cyn ac yn ystod y cyfarfod.
- Mewn unrhyw ddigwyddiad, bydd aelodau o dîm Cyrchfannau Wildfox yn gwisgo bathodyn i nodi a ydyn nhw'n siarad Cymraeg, fel ei bod yn hawdd eu hadnabod.

**Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig**

- Bydd holl ddogfennau, deunyddiau hyrwyddo a hysbysebion Cyrchfannau Wildfox a gynhyrchir gennym ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a rhoddir yr un amlygrwydd i'r ddwy iaith.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn sicrhau fod gwybodaeth a deunyddiau a arddangosir yn gyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn cynhyrchu dogfennau dwyieithog; serch hynny, os nad yw hyn yn bosib oherwydd maint dogfen, bydd fersiwn Gymraeg ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, a byddwn ni'n nodi ar y copi Saesneg bod fersiwn Gymraeg ar gael.

- Rhoddir amlygrwydd cyfartal i'r ddwy iaith ar ein hunaniaeth gorfforaethol ar gyfer safle Cyrchfannau Wildfox Cwm Afan.

**Digidol ac ar lein**

- Mae gwefan Cyrchfannau Wildfox yn hollol ddwyieithog a byddwn ni'n diweddaru tudalennau Cymraeg ar yr un pryd ag y byddwn ni'n diweddaru'r rhai Saesneg.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn sicrhau ei bod hi'n bosib symud yn ôl ac ymlaen yn hawdd rhwng cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg ar bob tudalen ar ein gwefan.
- Bydd gan Gyrchfannau Wildfox adran benodol ar y wefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ynghylch sut rydyn ni'n cydymffurfio â'r safonau iaith – byddwn ni'n diweddaru'r adran hon yn rheolaidd.
- Mae Cyrchfannau Wildfox yn defnyddio LinkedIn, Twitter ac e-bost i gyfathrebu â rhanddeiliaid, a byddwn ni'n defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar bob un o'r tri llwyfan.
- Os anfonwch chi neges atom ar y cyfryngau cymdeithasol, bydd Cyrchfannau Wildfox yn ateb yn iaith y neges wreiddiol.

**Tendro**

- Pan fydd Cyrchfannau Wildfox yn cyhoeddi tendr ar gyfer gwasanaethau, byddwn ni'n gofyn i'r ymatebwr gadarnhau a hoffen nhw dderbyn gohebiaeth bellach yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Byddai'n well gan Gyrchfannau Wildfox dderbyn tendrau yn Saesneg, ond byddwn ni'n gwneud trefniadau angenrheidiol ar gyfer y rheiny sy'n ffafrio ymateb a chael eu cyfweld yn Gymraeg os dymunant.
- Ni fydd Cyrchfannau Wildfox yn trin unrhyw dendr a dderbyniwyd gennym yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendrau a dderbyniwyd yn Saesneg.

**Llunio polisïau**

- Pan fydd Cyrchfannau Wildfox yn adolygu ne'n datblygu polisi, byddwn ni'n ystyried unrhyw effaith y gall y polisi hwn ei gael ar yr iaith Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

- Gyda phob polisi newydd, ni fydd Cyrchfannau Wildfox yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a byddwn ni'n meddwl am ffyrdd y gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Yn yr un modd, wrth ymgynghori neu wneud ymchwil er mwyn datblygu polisïau, bydd Cyrchfannau Wildfox yn ystyried a cheisio barn am effaith y polisi ar y Gymraeg.
- Fel cyflogwr, mae Cyrchfannau Wildfox yn ymrwymo i'r egwyddor y gall ein staff fyw eu bywyd gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r safonau – o lenwi ffurflen gais i gael eu cyfweld, i drafod materion sy'n ymwneud â'u cyflogaeth.
- Wrth recriwtio, bydd Cyrchfannau Wildfox yn ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag, a phan fyddwn ni'n hysbysebu swydd y mae gofyn i ddeiliad y swydd honno gael sgiliau Cymraeg, byddwn ni'n nodi hynny ac yn hysbysebu yn Gymraeg.
- Bydd modd i ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn cael swydd gyda Chyrchfannau Wildfox ymgeisio am swydd gyda ni drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn ni'n gohebu â chu am eich cais yn Gymraeg os dymunir.
- Ni fydd Cyrchfannau Wildfox yn trin ceisiadau swyddi a gyflwynwyd yn Gymraeg yn llai ffafriol na rhai a gyflwynwyd yn Saesneg.
- Bydd modd cael copi o bolisïau Cyrchfannau Wildfox sy'n ymwneud ag amodau gweithio ein staff a restrir o fewn y safonau yn Gymraeg os gofynnir amdanynt.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn annog staff yn ein safle yng Nghwm Afan i ddysgu Cymraeg yn y gweithle.

**Monitro ac Adrodd**

- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn rhagweithiol wrth fonitro'r fframwaith gweithredu yn unol â'r safonau yn flynyddol.
- Bydd Cyrchfannau Wildfox yn darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i amlygu unrhyw feysydd ble gellir gwella, er mwyn cydymffurfio â'r safonau.
- Er mwyn cydymffurfio â'r safonau iaith, bydd Cyrchfannau Wildfox yn cyflwyno adroddiad gerbron Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, yn ôl y gofyn. Bydd yr adroddiad yn esbonio sut rydym ni wedi cydymffurfio â'r holl safonau, gyda thystiolaeth i ddangos sut rydyn ni'n cyflawni'r gofynion. Bydd yr adroddiad hefyd yn dangos os ydym wedi methu â chyflawni unrhyw safon, ac os oes unrhyw un wedi cwyno am ein darpariaeth Gymraeg.

- Bydd tîm cyfathrebu Cyrchfannau Wildfox yn cydnabod cwynion ynghylch Strategaeth yr Iaith Gymraeg drwy lythyr, ffôn, e-bost a sianelau cyfryngau cymdeithasol (LinkedIn a Twitter) ac wedyn yn monitro a rhoi adborth am unrhyw gwynion.

## 6. Training and Development

Wildfox Resorts is committed to ensuring compliance with the standards set out in this strategy and is keen to do this in a natural and friendly way. We recognise we have more to learn and we are open to shaping and curating a programme of activities in the short, medium and long-term that best fulfil both regional and national policy and priorities.

Wildfox Resorts understands that each employee, consultant and representative has a responsibility to help us fulfil these aims.

The team that is based in Wales will be crucial to this, alongside those of the team who are learning the language. But Wildfox Resorts will also support and put arrangements in place to ensure that non-Welsh-speaking staff have exposure to and awareness of the Welsh language strategy and how they can individually play their part.

In order to fulfil the requirements of the standards we will take several steps, including:

- Recruiting staff with Welsh language skills, specifically the Community Liaison Officer.
- Ensuring that our staff have access to language awareness sessions and training regarding the requirements of the standards and use of the language in the workplace.
- Providing resources to staff to help them comply with the standards in their everyday work.
- Offering translation and proofreading support as and when necessary.
- Undertaking further work with independent experts to advise us on compliance matters.

## 6. Hyfforddi a Datblygu

Mae Cyrchfannau Wildfox wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a amlinellir yn y strategaeth hon ac maen nhw'n awyddus i wneud hynny mewn ffordd naturiol a chyfeillgar. Rydym ni'n cydnabod bod gennym fwy i'w ddysgu, ac rydym ni'n agored i ffurfio a churadu rhaglen o weithgareddau yn y tymor byr, canolig a hir sy'n cyflawni orau bolisïau a blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol fel ei gilydd.
Mae Cyrchfannau Wildfox yn deall bod gan bob cyflogai, ymgynghorydd a chynrychiolydd gyfrifoldeb dros ein helpu i gyflawni'r nodau hyn.
Bydd y tîm a leolir yng Nghymru'n greiddiol i hyn, law yn llaw â'r aelodau hynny o'r tîm sy'n dysgu'r iaith. Ond bydd Cyrchfannau Wildfox hefyd yn cefnogi ac yn gosod trefniadau ar waith i sicrhau fod staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg yn cael gweld strategaeth yr iaith Gymraeg, ac y byddant yn ymwybodol ohoni, a sut y gallan nhw chwarae'u rhan fel unigolion.

Er mwyn cyflawni gofynion y safonau, byddwn ni'n cymryd sawl cam, gan gynnwys:

- Undertaking further work with independent experts to advise us on compliance matters.
- Mae Cyrchfannau Wildfox wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a amlinellir yn y strategaeth hon ac maen nhw'n awyddus i wneud hynny mewn ffordd naturiol a chyfeillgar. Rydym ni'n cydnabod bod gennym fwy i'w ddysgu, ac rydym ni'n agored i ffurfio a churadu rhaglen o weithgareddau yn y tymor byr, canolig a hir sy'n cyflawni orau bolisïau a blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol fel ei gilydd.
- Mae Cyrchfannau Wildfox yn deall bod gan bob cyflogai, ymgynghorydd a chynrychiolydd gyfrifoldeb dros ein helpu i gyflawni'r nodau hyn.
- Bydd y tîm a leolir yng Nghymru'n greiddiol i hyn, law yn llaw â'r aelodau hynny o'r tîm sy'n dysgu'r iaith. Ond bydd Cyrchfannau Wildfox hefyd yn cefnogi ac yn gosod trefniadau ar waith i sicrhau fod staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg yn cael gweld strategaeth yr iaith Gymraeg, ac y byddant yn ymwybodol ohoni, a sut y gallan nhw chwarae'u rhan fel unigolion.
- Er mwyn cyflawni gofynion y safonau, byddwn ni'n cymryd sawl cam, gan gynnwys:

# 7. Conclusion

Wildfox Resorts is proud of the work done to date to represent and promote the Welsh Language Strategy for the Afan Valley Resort. We will continue to build and develop our approach with the guidance of key stakeholders including the NPT Council, Welsh Government and wider delivery team partners.

For more information on the project, please visit **www.wildfoxresorts.com** or follow our socials on LinkedIn @Wildfox Resorts and Twitter @WildfoxResorts.

To contact us regarding our Welsh Language Strategy please email the team at **info@wildfoxresorts.com,** call on **01639 500 800** or via post at **Wildfox Resorts Group Limited, Kimberley House, Ty-Glas Avenue, Llanishen, Cardiff , CF14 5D**

# 7. Casgliad

Mae Cyrchfannau Wildfox yn falch iawn o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn i gynrychioli a hybu Strategaeth yr Iaith Gymraeg ar gyfer Cyrchfan Cwm Afan. Byddwn ni'n parhau i adeiladu a datblygu ein dull o weithio gydag arweiniad rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cyngor CnPT, Llywodraeth Cymru a phartneriaid ehangach y tîm cyflenwi.

I gael mwy o wybodaeth am y prosiect, ewch i www.wildfoxresorts.com neu dilynwch ein cyfryngau cymdeithasol ar LinkedIn @Wildfox Resorts a Twitter @WildfoxResorts.

I gysylltu â ni ynghylch ein Strategaeth yr Iaith Gymraeg, gallwch e-bostio'r tîm ar info@wildfoxresorts.com, ein ffonio ar **01639 500 800** neu drwy'r post at **Grŵp Cyrchfannau Wildfox Cyfyngedig, Tŷ Kimberley, Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DX.**

WILDFOX
RESORTS

NATURE'S ADVENTURE

WWW.WILDFOXRESORTS.COM